



13

PARKER & SON,
English & Foreign Booksellers,
10, Broad Street, OXFORD.

PRIFYSGOL CYMRU.



THE present volume forms No. 4 of a series of *Reprints of Welsh Prose Works* of the sixteenth, seventeenth, and eighteenth centuries, for the issue of which arrangements have been made by the Guild of Graduates of the University of Wales. The importance of such works as those of Maurice Kyffin, Morgan Llwyd, and Theophilus Evans for students of the Welsh language and literature is generally recognised; but copies of the original editions in which alone it is possible to study the grammatical and orthographical peculiarities of each author, are in most cases difficult to obtain. It is hoped that the publication of these reprints, which are literal reproductions in each case of the best of the early editions, may to some extent supply this want and extend the limited facilities now enjoyed by students of Welsh prose.

The Guild desire it to be understood that, while they are responsible for the general lines on which the series is issued, and also for the choice of books and of editors, the sole responsibility for the contents of each volume lies with its editor.

March 1902.

YNY LHYVYR HWNN.


Yny lhyvyr hwnn
a Ban o gyfreith Howel

Dan Olygiaeth

John H. Davies, M.A.

*Bangor: JARVIS &
FOSTER. London:
J. M. DENT & CO. MCMII.*

135 c 13



RHAGYMADRODD.

RAI blynyddoedd yn ol penderfynodd Pwyllgor Llenyddol Urdd y Graddedigion ail-argraffu cyfres o glasuron llenyddiaeth Cymru. Barnwyd yn ddoeth ychwanegu at y clasuron cydnabyddedig, nifer o lyfrau eraill, i'r rhai y perthynai rhyw werth neu ddyddordeb neilltuol. Yn eu plith dewiswyd y llyfryn bychan hwn, ar gyfrif y dyb mai efe yw cyntafanedig y wasg Gymraeg. Gwasanaetha hefyd fel cof-arwydd am yr awdwr, un o'r gwladgarwyr puraf a fagodd Cymru erioed. Hwyrach mai hwn yw un o'r llyfrau prinaf yn yr iaith, oblegid cyn belled ag a wyddom nid oes ond un cyfargraff ar gael a chadw heddyw. Argraffwyd ef yn Llundain gan Edward Whitchurch yn y flwyddyn 1546. Cyfeiria yr Esgob Rhisiart Davies ato yn ei Epistol at y Cymry (1567) fel y canlyn: "Eithr mor ddiystyr fydday iaith y Cymro, a chyn bellet ir esceulusit, ac na allodd y print ddwyn ffrwyth yn y byt yw gyfri i'r Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydic cyn hyn i gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r Epystelay a arferid yn yr Eglwys tros y flwyddyn yn Gymraeg yn print, a Syr Jhon Prys yntay y Pader, y Credo a'r X Gorchymyn." Flynyddau lawer ar ol hyn dywed yr Esgob Humphreys (1648-1712), yn ei ychwanegiadau at lyfr Anthony à Wood fod copi o'r llyfr yn ei feddiant ef ar un adeg, ond iddo fyned ar goll. Ceir cofnod am dano yng Nghofrestr Moses Williams (1717) o dan y penawd 'Bibl,' ac yn y

'Typographical Antiquities' gan Ames (1749), ond collwyd golwg arno o'r amser hynny nes y cafwyd ef yn Llyfrgell yr Arglwydd Macclesfield yng Nghastell Shirburn. Bellach y mae'r adran Gymraeg o'r llyfrgell werthfawr hon wedi dod yn feddiant i Syr John Williams, Barwnig, ac y mae iddi gartref clyd a diogel ym mysg trysorau y meddyg gwladgarol.

Llyfr Y mae un neilltuolrwydd arbennig yn perthyn
di-enw. i'r llyfr. Nid oes enw iddo. Bu hyn yn achos i ddyrysu y llyfryddwr llafurus Gwilym Lleyrn.

Y mae'n eglur ddigon na welodd efe mo'r llyfr, ond er hynny y mae yn gwneyd y nodiad canlynol arno : "Dodwyd Beibl mewn llythyrennau breision ar ben uchaf y ddalen gyntaf, i dynnu sylw mae yn debyg, gan fod rhannau o'r Beibl ynddo, yr hwn oedd hollol ddyeithr yng Nghymru yn y dyddiau hynry." Gwel y darlennydd fod y nodiad yn gwblanhywir. Fe ddichon i Wilym syrthio i'r gwall hwn oherwydd fod y llyfr yn cael ei restru o dan y penawd 'Bibl' yng Nghofrestr Moses Williams.

Syr John Gan nad yw enw yr awdwr wrth y llyfr, erys
Prys oedd peth amheuaeth parthed ei awduraeth ; ond,
yr awdwr a barnu oddiwrth dafodiaith ac yng ngwyneb geiriau yr Esgob Davies, nid oes le i amheu nad i'r Deheuw'r Syr John Prys y perthyn yr anrhydedd o'i gyhoeddi. Yn ei ragymadrodd, dywed yr awdwr mai er lles ysprydol y Cymry uniaith yr ymgymherodd efe a'r gorchwyl o ddwyn y llyfr allan. "Pechod mawr," meddai, "oedd ado yr sawl mil o enaideu y vyned ar

gyfrgolh rac eiseu gwybodaeth y ffydd gatholic, ac y sydd heb wybod iaith yny byd onyd kymraeg." Hwyrach fod y brenin yn cymeradwyo ymgais yr awdwr, o herwydd ar ddechreu y llyfr dywed, "Yr awr nad oes dim hoffach gan ras yn brenhin urddassol ni no gwelet bot geirieu duw ae evengil yn kerddet yn gyffredinol ymysk y bobyl ef, y peth y ddengys y vot ef yn dywysoc mor ddwyvawl ac y mae kadarn. A phan roes eiswys gymmaint o ddonieu pressennol y genedyl kymry ny bydd lhesgach y gennadhau yddyn ddonyeu ysprydawl."

Ychydig cyn hyn, sef yn y flwyddyn 1536, yr oedd Harri wedi pasio deddf Uniad Cymru a Lloegr, a thrwy sefydlu llywodraeth gref yn Llwydlo, wedi llwyddo i atal rhaib a phenrhyddid gwylliaid a bonedd y wlad; dau ddosbarth o bobl bron yn gyfystyr yng Nghymru yr adeg honno. Llys Llwydlo a'i swyddogion felly gynrychiolai y "doniau presenol," ac yr oedd y maes yn rhydd i Syr John Prys, William Salesbury a'r Esgob Morgan gyflenwi Cymru a "doniau ysprydol."

*Trem ar
Hanes
Cymru.* Hwyrach mai buddiol fyddai taflu cipolwg frysiog ar ystad Cymru yn 1546. Yr oedd y Cymry am ddwy ganrif a hanner wedi talu gwarogaeth, ewyllysgar neu anewyllysgar, i

Loegr. Ar brydiau codent mewn gwrthryfel yn erbyn y Sais, brydiau eraill ymladdent frwydrau'r Sais ar wastadedd Ffraingc. Adlewyrchid yr un teimladau yn llenyddiaeth Cymru. Tra yr oedd Cymry yn ymladd dan faner y Tywysog Iorwerth yn Ffraingc, yr oedd Dafydd ap

Gwilym yn canu ei gywyddau mwynion i'w gariad-ferch Morfydd, ond pan gododd Owen Glyndwr mewn gwrthryfel, cawn Iolo Goch yn ei ddaroganau yn gweled yr Hafren yn llawn o Saeson meirw, ac yntau yn

“Dramwyaw draw yn drais,
Yn droedsych ar fol drud Sais.”

Yn ddiweddarach canfyddir yr un cyferbyniad ym marddoniaeth Dafydd ab Edmwnt a Guto'r Glyn, ac yng nghywyddau Dafydd Nanmor a Lewis Glyn Cothi.

Y mae yn bwysig iawn cofio fod Cymru rhwng 1284 a 1536 wedi ei rhannu yn ddwy wlad. Ffurfid Tywysogaeth Cymru o dair sir Gwynedd, Ceredigion ac Ystrad Tywi, a llywodraethid y rhain gan farnwyr a swyddwyr y brenin yng Nghaernarfon a Chaerfyrddin. Rhenid siroedd eraill Cymru yn diriogaethau bychain, pob un dan ei arglwydd ei hun. Nid oedd hawl, hyd yn oed gan y brenin, i ymyrryd a llywodraeth fewnol y tiriogaethau hyn. O fewn cylch ei arglwyddiaeth gwnai yr arglwydd y peth a fynnai; dedfrydai y diniwaid i farwolaeth, neu achubai einioes yr euog; nid oedd yn atebol i neb. Mae pob tyst yn cytuno fod ystad Cymru yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg yn resynus i'r eithaf. Nid oedd bywyd neb yn ddiogel. Pe cyflawnid y llofruddiad mwyaf anfad cawsai y llofrudd noddfa ddiogel yn un o'r arglwyddiaethau bychain. Trigai haid o ladron digywilydd ym mynydd-dir Plynlumon, a llochesai haid arall yn nyffryn-oedd Mawddwy. Rhuthrent i lawr i'r gwastadedd ar bob ochr, a difrodent yr holl wlad. Llofruddiwyd Barnwr

y Brenin ar ei ffordd o'r Sesiwn yn Rhaiadr, gan fagad o wylliaid Arwystli.

Ond trown i gyfeiriad arall. Ganrifoedd cyn hyn yr oedd amryw o dywysogion ac arglwyddi Cymru wedi trosglwyddo tir i'r gwahanol urddau Eglwysig. Teimlai hen dywysog, feallai, ar ol oes o ymladd yn erbyn gelynion ei wlad, fod yn rhaid iddo wneyd iawn am ei weithrediadau pechadurus. Hwyrach fod esgob neu fynach wrth ei benelin, a chyn pen hir cyflwynwyd rhyw lanerch brydferth yng nghilfachau y mynyddoedd i ofal y Brodyr Du neu'r Brodyr Llwyd, tra rhedo dwfr. Mewn cymoedd neilltuedig a dyffrynoedd anghysbell, ar draws ac ar hyd Cymru, codasant hwythau, y mynachod diwyd, eu mynachlogydd a'u prior-dai prydferth. Ac oddi amgylch yr adeiladau, lle nid oedd o'r blaen ond eithin a grug a garwdir diffaith, wele erddi a gwinllanau a physgod-lynoedd hyfryd yn ymrithio i'r golwg. Yma y trigai aml i hen bererin o Gymro, ac yma yr ymneilltuai yn hwyrddydd bywyd lawer i hen fardd i alaru am ryddid Cymru, ac i broffwydo am waredwr nad oedd byth i ddod. Byddai y brodyr ieuainc yn trin y tir, a'r hen yn gofalu am y tlodion, ac hwyrach y codai o'u plith ambell i fardd neu lenor, i gadw yn ofalus hanes a thraddodiadau eu cenedl. Dichon eu bod yn ofergoelus, yn rhoddi cred mewn llawer chwedl ffol; eto iddynt hwy yn fwy na neb, rhaid diolch am gadw yspryd Cymru yn hoenus, a'i llenyddiaeth yn fyw trwy ganrifoedd o orthrwm a thywyllwch. Ond erbyn dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd yr yspryd yn

gwanychu a'r corff yn llesghau, ac hwyrach fod llawer o ddiolfalwch ac esgeulustra wedi llithro i mewn, a llawer o'r purdeb cynhenid wedi ei golli. Yn yr adeg hyn, pan yr oedd rhaib a gormes yn llywodraethu'r wlad, a phan yr oedd crefydd Cymru yn isel, daeth gwaredigaeth o Loegr.

Yn 1536, pasiwyd deddf Uniad Cymru a Lloegr. Gwnawd i ffwrdd a'r mân diriogaethau, rhanwyd Cymru yn siroedd, a rhoddwyd cynghor yn Llwydlo i lywodraethu'r wlad. Rowland Lee, Esgob o Sais oedd ben ar y Cynghor. Mewn naw mlynedd yr oedd y gŵr hwn wedi ysgubo Cymru yn lân. Dywed un hanesydd iddo grogi 5,000 o ladron ac yspeilwyr yn ystod chwe blynedd.

Tua'r un amser dadwaddolwyd a dadgorfforwyd y mynachlogydd, a dadseiliwyd llywodraeth y Pab yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, yn anffodus, nid oedd dim i gymeryd lle y grefydd Babaid, yr oedd yr offeiriaid yn ddiog ac anwybodus, nid oedd un diwygiwr mewn golwg. Dilynai y Cymry eu hen arferion, er gwaethaf gorchymynnion y Brenin a'i esgobion, aent ar eu pererindodau i'r ffynnonau cysegredig, cynneuent ganwyllau o barch i'w seintiau, addolent eu delwau yn y dirgel, cadwent eu creiriau sanctaidd a chyfrifent eu paderau. Ychydig a fedrai ddarllen, a llai fyth a fedrai ysgrifennu. Yn y cyfwng yma, pan oedd addysg Cymru wedi diflannu, a'i chrefydd wedi dirywio, cawn ddau o wyr y gyfraith yn unig ar ddihun. Syr John Prys a

William Salesbury gynneuodd y goleu sydd wedi dwyn y Cymry o'r tywyllwch i sefyll yn y rheng flaenaf o bobl ddiwylliedig y byd.

Yn y Llyfr i'r werin yn bennaf oedd llyfr Syr John
Llyvyr Prys. Gofal cyntaf yr awdwr oedd rhoi cyf-
Hwenn. arwyddiadau i ddarllen yr iaith. Ymgeisiodd
 hefyd at wneuthur trefn ar ei llythreniaeth,
 a phe bai William Salesbury wedi dilyn Prys yn y mater
 hwn, hwyrach y byddai iaith pwlpud a gwasg Cymru dipyn
 yn fwy cydweddol a'r iaith lafaredig. Wedi'r traethawd
 ar lythreniaeth daw'r Calendyr. Y mae hwn yn neilltuol
 o ddyddorol, gan ei fod yn cofnodi dyddiau gwyl cynnifer
 o seintiau Cymru.* Ar waelod pob tudalen ceir cyfar-
 wyddiadau i'r amaethwr pa fodd i drin ei dir, a gofalu
 am ei ardd, a chredwn fod Syr John yn wr o brofiad pan
 yn sôn am y pynciau hyn. Wedi'r Calendyr daw'r
 Gredo, y Pader, yr Ave Maria, a'r Deg Gorchymyn.

Hyd yma y mae'r llyfr yn dilyn yr un drefn a'r
 llyfrau Plygain Seisneg argraffwyd tua'r un adeg. Geilw
 rhai ef yn "Primer" am y rheswm yma. Ond, a siarad
 yn fanwl, nid yw yn Brimer, gan mai math o lawlyfr at
 wasanaeth teuluaid oedd hwnnw, ac yr oedd ynddo liaws
 o weddïau boreuol a hwyrol, ac hefyd emyn neu ddau.
 Cyhoeddwyd o leiaf dri argraffiad o'r Llyfr Plygain yng
 Nghymru cyn 1640; un yn 1618, un arall yn 1633, ac un
 rhwng y ddau ddyddiad yma. Y mae y rhan olaf o'r llyfr
 yn cynnwys rhestr o'r saith pechod marwol wedi eu

* Gwel llyfryn y Parch. John Fisher, 'The Welsh Calendar.'

dosrannu yn wahanol benau. Hwyrach fod Syr John wedi codi sylwedd hwn oddiwrth un o'r traethodau crefyddol oedd mor gyffredin yn y canol oesoedd. Os cymherir ef a'r traethawd "Py Delw y dyly Dyn credu y Duw" a argraffwyd gan y Proff. J. Morris Jones yn Llyfr yr Ancr (tud. 141-3), gwelir fod cryn debygolrwydd rhyngddynt. Fel rheol, arferir yr un geiriau i ddynodi y pechodau a'u 'ceingiau,' chwedl Syr John. Cyfaddasiad, mwy na thebyg, yw y rhan olaf o'r llyfr o ryw ysgriflyfr Cymraeg.

Mae llawer o wallau argraffyddol yn y llyfr, ond ein dyledswydd ni oedd dilyn y gwreiddiol er mwyn i'r adargraffiad fod mor debyg iddo ag oedd yn ddichonadwy. Lle methwyd gwneuthur hyn, rhoddir rhifnod uwchben y gair er mwyn dangos y gwall. Er esiampl, dynoda y rhifnodau 1, 9, 10-20, 22-25, 38-9, 40-6, fod accen ar y llafariaid yn y geiriau hyn; rhifnodau 2-8, 21, 26, 47, fod y llythyren 'n' ar goll, a rhifnodau 27-37, 48, 49, fod dd wedi ei argraffu yn lle ð. Y mae'r awdwr ei hun yn syrthio i'r gwall olaf yn fynych.

*Ai hwn
oedd y llyfr
cyntaf yn
yr iaith.*

Er ein bod yn credu mai hwn oedd y llyfr cyntaf argraffwyd yn yr iaith Gymraeg, eto nid oes sicrwydd am hyn. Nid oes dyddiad wrth "Oll Synnwyr Pen Kembero." Argraffwyd ef gan Nycholas Hyll, a gwyddom ei fod ef yn argraffu llyfrau rhwng 1546 a 1554.² Y mae

² Arber's Stationers' Registers, vol. v. xciv; Catalogue, British Museum; Ames' *Typographical Antiquities*, vol. iv., p. 230-6.

cyfeiriad yn y rhagymadrodd at waith John Heywood yn cyhoeddi ei gasgliad o Ddiarhebion Saesoneg. Daeth y llyfr hwnnw allan yn 1546, medd Lowndes, ac felly ysgrif-enwyd y rhagymadrodd gan Salesbury yn, neu wedi y flwyddyn honno. Cyfeiria Salesbury hefyd at Polydore Vergil fel "un o'r dyscedickat heddy o wyr llen Lloecr," a chasglwn oddiwrth hyn fod Polydore ar dir y byw. Bu ef farw yn 1555. Dywed Salesbury ymhellach, "Pererindotwch yn droednoeth at ras y Brenhin ae Gyncor y ddeisyf cael cennat y cael yr yscrythur lan yn ych iaith." Bu Iorwerth VI. farw yn 1554. Felly y mae'n lled glir fod y llyfr wedi ei argraffu rhwng 1546 a 1554. Cyhoeddodd William Salesbury ei Eiriadur Cymraeg a Saesneg yn 1547, a llyfrau eraill yn 1550 a 1551, a'r casgliad naturiol yw mae tua'r un amser yr argraffwyd "Oll Synnwyr Pen Kembero." Os felly llyfr Syr John Prys oedd y cyntaf argraffwyd yn yr iaith.

Hanes Mab oedd Syr John Prys i Rhys ab Gwilym
bywyd Syr Gwyn o Frycheiniog a Gwennllian ei wraig.
John Prys Ganwyd ef yn y flwyddyn 1502.³ Yn ol
 Harl. MS. 1976, f.37, yr oedd yn deillio yn
 unionsyth o Einion Sais. Priododd Syr John un Joan,
 neu Johane, merch John Williams o Southwark, Llundain,
 a nith (merch chwaer) i Elisabeth, gwraig Thomas Crom-
 well. Dywed rhai fod John Williams yn nai i Forgan
 Williams o Lanishen, un o henafiaid Oliver Cromwell,
 ond haera eraill mai brawd Morgan Williams ydoedd.

³ *Cambrian Journal*, Mawrth, 1857, tud. 40.

Yn ein tyb ni yr olaf sydd debycaf i'r gwir. Yr oedd Morgan Williams yn briod a Catherine, merch Walter Cromwell, a chwaer Thomas Cromwell, Iarll Essex, y gwladweinydd galluog. Felly yr oedd cysylltiadau teulu-aidd lled agos rhwng Joan gwraig Syr John a Thomas Cromwell. Bu i Syr John a Joan un-ar-ddeg o blant, sef Gregory, Peter, Richard, John, William, Bartholomew, Elinor, Johane, Jane, Mary, Ursula. Bu Gregory, y mab hynaf yn aelod seneddol dros Henffordd, yn sirydd dair gwaith dros Swydd Henffordd, a dwy waith dros Swydd Frycheiniog. Bu rhan o'r dreftadaeth ym meddiant ei ddisgynyddion hyd y flwyddyn 1854.⁴ Bu Richard farw yn ddi-blant, ac ni wyddys beth ddaeth o hiliogaeth y lleill. Priododd Johane, un o'r merched, dair gwaith, a'r trydydd gwr oedd Thomas Jones, Porthffynnon, Tregaron, un sydd yn lled adnabyddus wrth yr enw Twm Sion Catti. Hi, yn ol traddodiad, oedd aeres Ystrad Ffin y bu Twm yn ei charu mewn modd mor wreiddiol a nodweddiadol.

Sonia Syr John yn ei ewyllys am ferch arall o'r enw Catherine. Hwyrach i Syr John fod yn briod ddwywaith, ac mai plentyn y briodas gyntaf oedd hon. Fodd bynnag, yr oedd hi yn wraig briod yn 1555,⁵ a thybiwn oddiwrth hynny ei bod yn hŷn na'r plant eraill, gan y gwyddom fod Gregory, y mab hynaf wedi ei eni yn 1535.

Y cyfeiriad cyntaf a geir at Syr John yw'r cofnod

⁴Duncumb and Cooke's *Hereford*, cyf. i. tud. 111.

⁵James Gomond oedd enw ei gwr, yr un dyn mae'n debyg a'r James Gomond fu yn Uchel Sirydd Swydd Frycheiniog yn 1569-70.

yn y 'State Papers,' cyf. iv., tud. 2943. Enwir ef a Wm. Brabazon, un o weision Cromwell. Casglwn felly fod John Prys yng ngwasanaeth Cromwell mor foreu a Gorffennaf, 1530. Dywedir, ar awdurdod Wood yn y bywgraffiadau sydd wedi ymddangos o dro i dro, fod Price yn aelod o Broadgates Hall yn Rhydychen, ac iddo gymeryd ei radd yn y Brifysgol yn y flwyddyn 1534. Yng nghofrestr y Brifysgol ceir y cofnod hyn :

Price or Pryce, John, supplicated for B.C.L. and dispensed July, 1534, adm. 12 July. Supplicated for B. Can. L. June, 1535, of Broadgates Hall.⁶

Hwn yn ddiau yw'r gwr y mae Wood yn cyfeirio ato, ond y mae yn anhawdd credu, fod Syr John Prys yn fyfyrwr yn Rhydychen tua 1534, oherwydd yr ydym yn gwybod fod Syr John tua'r adeg hyn yn tramwyo'r wlad i archwilio'r mynachlogydd, ac yn Mehefin, 1535, tra yr oedd y John Price uchod yn derbyn ei radd o B. Can. L. yn Rhydychen, yr oedd Syr John Prys yn brysur yn casglu tystiolaeth yn erbyn John Fisher, Esgob Rochester.⁷ Y mae traddodiad fod William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd, hefyd yn aelod o Broadgates Hall, ond nid yw ei enw ar gofrestr y Brifysgol. ('History of Pembroke College'). Ond y mae cofnod boreuach ar gofrestr y Brifysgol sydd yn rhedeg fel hyn :

⁶ Reg. Univ. Oxford, i. 178.

⁷ Dichon mai y John Pryce a dderbyniwyd yn aelod o Lincoln's Inn, Gorffennaf 14, 1540, oedd hwn. Yr oedd gwr o'r un enw yn Attorney General in Wales and the Marches, yn 1559. (*Williams' Welsh Judges*, p. 10).

Pryse, John, supplicated for B.C.L. 21 May, 1519, adm.
29 Feb. 152 $\frac{3}{4}$, supplicated for B. Can. L. March,
153 $\frac{0}{1}$. Fellow of All Souls, 1523.

Ynglyn a'r gwr hwn y mae Anthony à Wood yn gwneyd y sylw canlynol : "Farther also I find that in 1523, one John Price of All Souls College was admitted Bach. of Civil Law, and that he died 1554."

Tueddwn i gredu mai dyma'r gwr a ddaeth wedi hynny yn Syr John Prys. Nis gwyddom beth oedd awdurdod Wood dros ddweyd mai yn 1554 y bu farw, ond y mae'r dyddiad yn lled agos i'w le, oblegid bu Syr John farw yn 1555. Os yw'r eglurhad yma yn gywir, y mae yn symud cryn dipyn o anhawsder o'n ffordd. Hwyrach fod Syr John ar ol ymadael a Rhydychen wedi ymaelodi yn un o'r Inns of Court, a rhyw fodd neu gilydd wedi dyfod i adnabyddiaeth o Thomas Cromwell. Y mae'n amlwg fod Prys mewn cysylltiad lled agos a Cromwell yn y flwyddyn 1534 (os nad ynghynt), gan fod cyfeiriad ato mewn llythyr ysgrifenydd at Cromwell fel "Your servant, John ap Rys." O'r adeg hynny ymlaen gallwn ddilyn ei gamrau yn lled fanwl. Bu yn ddyfal yn ystod 1534 a 1535 yn gwneuthur ymchwil dros y Brenin drwy fynachlogydd Lloegr. Yn Rhagfyr, 1534, gwnawd ef yn Gofrestrydd Côr Salesbury, ac yn 1536 bu yn gwneyd ymholiadau dros y Brenin yn Siroedd Lincoln a Norfolk. Ymhlith papurau y State Paper Office, ceir petisiwn oddi wrth Prys at Thomas Cromwell a ysgrifenydd tua'r adeg hon, a chan fod yr ysgrif yn

rhoddi ei hanes yn gryno yn ystod y blynyddoedd hyn, dodwn hi yma :

Considerations whereupon John ap Rece maketh his suit to the King's Highness.

His office is decayed, and no fee attached to it, yet it is charged with the keeping of the King's muniments. He has written for the King these things following without any allowance therefor :

Professions of all prelates persons and bodies; Divers instruments for my ladie Marie concerning the abdication of the Bishop of Rome's power and renunciation of appeals ;

Divers great instruments as well of the process of divorce of Queen Anne, as of the contract and solemnization of the same between the King and Most Noble [late] Queen Jane, all which instruments and others he is charged by his office to keep,

He wrote to the King the abridgements of the comperets of the late visitation, also the confessions of the late rebels in Lincolnshire and Yorkshire and abridgements of the same. He rode post to the examination and execution of that traitor Halom and his accomplices at Hull. He was promised a pension of £40 out of Guysborough, but had it not. He has ever since been occupied in the examination of traitors, felons or heretics and daily is and shall be ready to do.

He kept one David at the King's appointment for half a year or more in his house at his own cost also he hath ridden upon his own costs to the execution of divers other the King's affairs. All which he now reciting not to ask anything therefor of duty but for the furtherance of his suit in this part by revocation of the same to the

King's highness memory. And he now desires but £50 that is not in the King's hands and to bring to his Grace therefor £200 a year besides moveables worth £400 or £500.

Gwelwn fod Prys wedi bod yn ddiwyd yng ngwasanaeth y Brenin, ac wedi dod i gysylltiad pur agos ag ef ar fwy nag un achlysur.

Ym mis Gorffennaf, 1540, cawn ef yn cymeryd rhan yn y gweithrediadau ynglyn ag ysgariad Anne of Cleves a Harri'r Wythfed, ac yn y mis Medi canlynol etholwyd ef yn ysgrifenydd dros y Brenin yng Nghymru. Cwympodd allan ag un Charles Fox ynghylch y swydd hon, a gwyswyd y ddau o flaen y Privy Council, gyda'r canlyniad i Prys gael ei wneyd yn ysgrifenydd i Gyngor Cymru a'r Gororau.

Nid ydym yn credu fod digon o brofion mai yr un gwr oedd efe a'r John ap Rece fu yn Gwnstabl yng Nghastell Clun, o dan Iarll Arundel.⁸ Yr oedd Prys erbyn hyn wedi casglu llawer iawn o gyfoeth, a chawn ef o hyn allan yn byw yn ei dy yn Henffordd, fel gwr bonheddig a pherchen tir. Gwnaed ef yn farchog ar yr 22ain o Chwefror, 1546-7. Bu yn Uchel Sirydd dros Sir Frycheiniog yn 1543, a thros Sir Henffordd yn 1554, yn Aelod Seneddol dros Henffordd yn 1553, a thros Llwydlo yn 1554. Yn 1551, etholwyd ef yn aelod o Lys y Gororau (*The Court of the Council of Wales and the Marches*), a daliodd y swydd hyd ei farwolaeth.

⁸ Gwel *Dict. National Biography*, dan enw Prys a S. P. Dom. *Henry VIII.*, cyf. ix. tud. 91, xiii. 289, xvi. 6.

Yr oedd ganddo diroedd lawer yn Sir Henffordd, ac efe hefyd oedd perchenog Priordy Aberhonddu. Ond tra eto yn ddyn canol-oed bu farw yn ei dy yn Henffordd ar y 15fed o Hydref, 1555.⁹

Dywed Nicholas, yn ei *Annals of the Counties of Wales*, ar awdurdod Theophilus Jones mae'n debyg, fod Syr John yn ffafr-ddyn gyda'r Brenin Harri, ac mai efe oedd awdwr, yn ogystal ag hyrwyddwr, y petisiwn a ddanfonwyd i'r Brenin i erchi cymundeb agosach rhwng Lloegr a Chymru.¹⁰

Yr ydym wedi methu dyfod o hyd i unrhyw dystiolaeth bendant fod llaw gan Prys yn y mudiad hwn, er fod y peth yn debyg o fod yn gywir. Rhaid cofio ar yr un pryd nad oedd Syr John mewn safle bwysig cyn 1536, ac y mae yn anhawdd credu fod yn bosibl iddo yn uniongyrchol beth bynnag ddylanwadu ar y Brenin. Ond yr oedd yn was i Cromwell, ac yn ddiameu yn dyfod i gyffyrddiad parhaus a'i feistr, a chan mai Cromwell oedd y prif offeryn i ddwyn oddiamgylch ddymuniadau y Brenin, gallwn fod yn sicr fod y Cymro ieuanc wedi gwneyd ei oreu i hyrwyddo unrhyw fudiad a fyddai er lles ei wlad, trwy egluro safle pethau yng Nghymru.

Llyfrau Ysgrifennodd Syr John Prys nifer o lyfrau
Syr John. a thraethodau, ond ychydig o honynt sydd wedi eu cyhoeddi, ac y mae'r lleill yng nghudd

⁹ *Inquis. Post Mortem, Ph. & M., C. 105., No. 83.*

¹⁰ Ceir y Petisiwn yn llawn yn *Lord Herbert of Cherbury's Life of Henry VIII.*, arg. 1683, tud. 436-9.

mewn hen lyfrgelloedd neu wedi eu colli yn llwyr. Wele restr o rai o honynt :

1. Yn y Llyvyr Hwnn, &c. Llundain, 1546.
2. *Historiæ Britannicæ Defensio*, a gyhoeddwyd gan ei fab, Richard (Brit. Mus. Cotton MS. Titius F. iii. 170). Llundain, 1573.
3. *Description of Cambria* (translated and enlarged by H. Lhuyd). Published as part of the *Historie of Cambria*. London, 1584.
4. *Tract on the restitution of Coinage*. Written 1553, Dedicated to Queen Mary. New Coll. Oxon. MS. 317., iii.¹¹

Ei Ewyllys. Taffa ewyllys Syr John dipyn o oleuni ar ei hanes a'i gymeriad. Ynghylch ei gladdu dywed :

My bodie to be buried in the Cathedrall Church of Hereford if I die at Hereford or ells in some other Christian buriall where my executors or administrators shall thinke most conveniente and I will that a stone with an inscription by the devise of somme of my executors or administrators be sett on my tombe within one yere after my decease mentioninge the daie and time of my decease and requeaste of all mennys praiers. And I will that a faire blacke stone whiche I lefte at Parshor (Pershore ?) in Worcester-shere be sett hither for that purpose my frende Master

¹¹ Gwel hefyd y *Cambrian Journal*, Mawrth, 1857, tud. 39-47, lle desgrifir llawysgrif fu unwaith yn ei feddiant ; ac hefyd "*A Catalogue of the MSS. relating to Wales in the British Museum*", gan Ed. Owen, 1900, tud. 8, 32 ; a *Cat. Lib. Manuscriptorum Angliae et Hiberniae*, 1696. 1239, 1302 a 317.

Martin curat of Parshor aforesaide dothe knowe where the stone remaineth.

Nis gallwn ddweyd a wnaed yn ol ei ddymuniad ai peidio. Nid oes son am ei feddfaen yn yr Eglwys Gadeiriol. (Duncombe's Herefordshire ; Rawlinson's Hereford Cathedral). Gan iddo farw o fewn ychydig ddiwrnodau ar ol gwneyd ei ewyllys, tybiwn yn sicr i hynny ddigwydd yn ei dy yn Henffordd.

Barn
Gasquet
am
Syr John. Fath ddyn oedd John Prys? Mae'r hanesydd Pabyddol, y Tad Gasquet, yn ei lyfr ar "Henry VIII. and the English Monasteries," yn rhoddi cymeriad annymunol iawn iddo. Fel y dywedwyd eisoes, bu Prys yn un o'r dirprwywyr a ddanfonwyd gan y Brenin i chwilio cyflwr mynachlogydd y deyrnas. Wrth wneyd hyn yr oedd yn anhawdd iddo beidio aflonyddu llawer ar y mynachod a'r lleianod, yn eu cartrefi clyd. Os caniateir fod y neges yn un atcas, nid yw o angenrheidrwydd yn dilyn fod y negesydd yntau yn ddihiryn; os bu raid i John Prys gydweithio a dynion digrefydd a diegwyddor, nid yw hynny yn brawf yn y byd fod John Prys yn bagan ac yn dwyllwr. Ond tyn y Tad Gasquet ddarlun gwrthun o hono. Y mae yn wr digymeriad, yn hyrwyddo pob drygioni, yn euog ei hun o droseddau anfad ac yn was a chynffonwr i'r arch-heretic Thomas Cromwell. Nid oes gennym le i ddadrys y cyhuddiadau hyn, ond y mae yn amlwg fod yr hanesydd yn gadael i'w deimlad lywodraethu ei farn wrth sôn am Prys. Ar yr un pryd nid yw ond

teg i gofnodi fod y Tad Gasquet, a gydnabyddir fel un o brif haneswyr y Pabyddion, yn dal y syniadau hyn.

*Barn
arall am
dano.*

Fel tâl am ei wasanaeth i'r Brenin, derbyniodd Prys lawer o dir y mynachlogydd. Yn hyn o beth nid oedd yn eithriad i eraill o wyr y Llys, ac nid oes angen condemnio Prys am nad oedd ei foesoldeb o radd llawer uwch na'r eiddo ei gyfoedion. Gwyddom hefyd iddo gael rhyw gymaint o ddodrefn y mynachlogydd, a hwyrach iddo fachu aml i hen lyfr prin a gwerthfawr. Y mae ei ewyllys yn taflu peth goleu ar hyn :

Item. I will that my executors shall deliver and distribute to churches within the countie of Hereford all such churche apparell as I had within this countie if any remaine in my house.

Item. To the Cathedrall Church of Hereforde to be set in their library all my written bookes of Divinitee.

Gwelwn felly fod Prys wedi dychwelyd peth o'r yspail, a hwyrach fod rhai o'r llyfrau eto ar gadw yn llyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd. Gwaith anhawdd iawn hyd yn oed i gydoeswyr yw ffurfio syniad c;wir am gymeriad, natur, a chynneddfau dyn. Anhawddach fyth yw ceisio pwysu rhagoriaethau a diffygion gwr sydd yn y bedd er's blynyddau maith. Gedy ambell i wr ei ôl ymhob llythyr a ysgrifenna ac ymhob gweithred a wna, un arall a ysgrifenna lawer heb ddadguddio i neb gyfrinach ei fywyd. Ychydig iawn a wyddom am Syr John Prys. Casglwn oddiwrth gyfeiriadau yma a thraw yn y State Papers fod y rhai oedd yn cydweithio ag ef yn rhoddi gair

da iddo, a dyna i gyd a allwn ddweyd. Ond y mae yn digwydd fod Syr John ei hun, yn anfwriadol bid sicr, wedi rhoddi rhai awgrymiadau i ni yn ei lyfrau a'i lythrau, ac er na fydd pawb, fe ddichon, yn dyfod i'r un casgliad a ninnau, byddwn yn ddigon hyf i draethu ein syniadau ar y pwnc.

Yn hoff o'i gartref. Yn y flwyddyn 1540 yr oedd Prys yn byw mewn ty yn ninas Henffordd, ac yn dal lês dan y Brenin. Daeth y sî fod y Brenin yn bwriadu gwerthu'r ty, ac ysgrifennodd Prys ar unwaith at Cromwell i geisio ei brynnu :

ffor considering that I have alre dy paid so moche for the fferme, been dwelling thereupon a good while and my children and part of my familie there yet remayning, and [have] buylded thereupon as moche as coste me a hundred markes. I had lever spend all that I have to my shirte than be putt beside it.

Ond fath dy oedd gan John Prys yn Henffordd? Yn ei ewylllys y mae yn gadael i'w wraig :

Syr John fel amaethwr “That house where I now lie to dwell in as long as she be unmarried, and one of the orchardes, and a garden, and pasture for six kine and a geldinge.”

Ty, gardd, perllanau, lle i gadw chwech o wartheg ac un ceffyl; dyna gartref John Prys. Nid rhyfedd ei fod yn hoff o'r lle. Yma y byddai yn dianc o ganol ei waith yn Llundain i fwynhau ychydig seibiant, ac yma yn nhawelwch ei erddi ac yng nghysgod ei goed afalau, y deuai i anghofio helbulon y llys yn Llwydlo. A mwy na

hynny, onid oedd yn ymhyfrydu yngwaith y ffarm fechan? Pwy a ddarllena y nodiadau ar waelod y Calendyr heb ganfod hynny. Ym mis Ionawr :

Torr dy goed defnydd ac ni holhtan. Diwreidda y koedach ar dyryssi oth waigrlodd ac ny thyfan eilwaith pâl dy ardd, symyd dy wenyn—dinoetha wreiddeu dy goed ffrwyth, yn enwedig o'r rhai a fo hen ac heb ddwyn ffrwyth; gwna ddefnyddion dy aradyr [a rho hwynt yn dy simne i sychu erbyn y gaua nesaf.]

Ym mis Chwefror :

Tynn y mwswng oddyar dy goed ffrwyth, torr y keingyey dyfyrlyhyd, dod goed byw, a choed rhos ar vath hynny, scathra a phlyg dy berth yn niwedd y lheuad, dod gyffion koed ievaink a cheingieu, a chlwmme y n y lhawnlhoer. Ardd dy wndwn, a haya dy ffa ath bys, ath geyrch mewn tir sych yn y newydd loer, mewn tir gwlyb wedy yr lhawn lhoer neu o vewn pedwar niwarnod y nailh ae kynt ae gwedy.

Onid yw'r amaethwr profedig yn siarad ymhob gair o'r cynghorion hyn? Pwy ond amaethwr a fyddai yn sôn am scathru a phlygu perthi wrth ysgrifennu Calendyr Eglwys Loegr.

Yn ymhyf-rydu Ond yr oedd atdyniadau eraill yn y ty yn Henffordd. Yr oedd yno liaws o hen lyfrau.
mewn hen lyfrau. Soniwyd eisioes am "my written bookes on Divinitee." Yn ei ewyllys dywed :

Item. I give to my sonnes Gregorie and Richarde all my printed bookes saving the workes of Sainte Austin and Course of the Canon Law whiche I give to the aforesaide Master Smithe, Vicar of Bromeyarde to

be divided betweene them by the discretion of my executors.

Item. I bequeath to my son Richarde all my written books of histories and humanitee.

Llyfrau
Cymraeg. Heblaw y rhain credwn mai nid llai diddan i'r perchennog oedd y llyfrau a nodir yn ei ewyllys yn y geiriau hyn :

Item. I give my Welche bookes to Thomas Vaughan of Glamorganshire.

Yn gwrth-
wynebu
Polidor yr
Eidalwr. Nid nepell oddiwrtho trigai Polidor Vergil, y mynach o'r Eidal, a ysgrifennodd *Hanes Prydain*, ac a ddifenwodd yr hen Frutaniaid. Amheuai Polidor eirwiredd y chwedlau a adroddai Sieffre o Fynwy ynghylch tarddiad a hanes boreuol y Cymry. Teimlodd Prys hyn i'r byw, a dywedir iddo roddi llawer o gymhorth i Leland pan yn ysgrifennu ei *Assertio Arturi*. Aeth gam ymhellach na hyn, o herwydd ysgrifennodd lyfr ei hun i wrthbrofi syniadau Polidor. Ni fu byw i gyhoeddi'r llyfr, ond yn ei ewyllys dywed :

Item. I wyll that my sonne Richarde shall put my booke in printe that I have made againste Polidorus Storie of Englande, and to annexe to the same some pece of antiquitie that is not yet printed out of the written bookes of histories that I have in my house, as William Malmesburie, de Regibus Anglorum, or Henricus Huntingdon, and towards the charges thereof I bequeathe him twentie marks.

Cyflawnwyd ei gais gan Richard, a daeth y llyfr allan o'r wasg yn 1573, dan yr enw *Historiæ Britannicæ Defensio*.

*Syr John
yn Gymro
i'r carn.* Dengys y rhagymadrodd i'r llyfr a ail-argraffir yma fod Syr John Prys yn Gymro gwladgarol, ac yn teimlo yn ddyledswydd arno i wneuthur yr hyn a allai i hyfforddi'r Cymry yn egwyddorion crefydd.

Ac er bod y gofal mwya yn perthyn yr periglorion, eto ni bydd neb dibwl, ac y rhoes Duw ddonyeu neu gyfarwyddyd yddaw, ny wnelo y peth y alho er hysbysu yddy gydgristion y pynkeu y sy mor anhep-
kor ar rhain.

Hwyrach ein bod bellach mewn cyfle i ffurfio rhyw syniad fath ddyn oedd John Prys.

*Yn wyllt
ei
dymher.* Dengys yr ymdrafodaeth rhyngddo a Fox ei fod yn wyllt ei dymher; ond os na allai lywodraethu ei natur, byddai yn edifarhau yn fuan. Pan gyda Dr. Lee ar ei ymweliad a'r mynachlogydd methasant a chytuno ac mewn canlyniad ysgrifennodd Prys lythyr chwerw iawn at Cromwell i achwyn ar ei gyd-swyddog ffroen-falch. Ond y diwrnod nesaf ysgrifennodd lythyr arall i dynnu ei eiriau yn ol.¹² Dyn hawdd ei gyffroi, a hawdd ei dawelu ydoedd.

*Yn gyf-
reithiwr
ac yn ddyn
ymarferol.* Yr oedd yn ddyn ymarferol.¹³ Hwyrach fod ei ddygiad i fyny fel cyfreithwr yn ddigon o reswm am hyn. Gwelodd yn eglur fod dau angenrhaid yng Nghymru; y cyntaf oedd

¹² S. P. Dom. H. viii. Cyf. ix. (Hyd. 16 a 17, 1535.)

¹³ Yn ei ewyllys ceir a ganlyn: Item. I give towards the mendinge of the Bridge upon Uske in Brecknock ten poundes, and towards reparation of the highway between Hereford and Lugge Bridge five poundes.

gwneuthur rhyw drefn ar lywodraeth y wlad, a'r ail oedd ei haddysgu. Bu am bymtheng mlynedd yn cymeryd rhan flaenllaw yn llywodraethiad Cymru, ac nis gallasai Cymro mor wladgar a chyfreithwr mor ddysgedig lai na gadael ei ol ar drefn a dull y llysoedd barn. Yn sicr, cawsai pob Cymro a ymddangosai o flaen y llys yn Llwydlo chwareu teg tra yr oedd Syr John Prys yn aelod o hono. O fewn pedair blynedd wedi ei benodiad yn glerc i'r Cynghor, cyhoeddodd ei lyfr Cymraeg. Amcan y llyfr, fel y dywedasom o'r blaen, oedd dysgu'r Cymry uniaith i ddarllen y Gymraeg ac i'w hyfforddi yn rhai o egwyddorion y grefydd Gristionogol. Y mae yn beth hynod iawn mai dyn o safle Syr John Prys gyhoeddodd y llyfr cyntaf yn yr iaith Gymraeg. Nid ydym yn credu fod yr un marchog, neu wr o safle gymdeithasol gyffelyb wedi ysgrifennu a chyhoeddi llyfr yn yr aith ar ol ei amser ef. Dengys hyn mor werinol yw llenyddiaeth Cymru. Fel y dywed ef ei hun yr oedd periglorion Cymru "y sy yny mysk oswaethhiroedd y nailh ae nys medran, ae nys mynнан ddangos yw plwyvogyon y petheu y maen yn rhwymedic y lhaill yw dangos ar lhalh eu gwybod."

*Offeiriaid
dioglyd.*

Pan oedd offeiriaid Cymru yn rhy anfedrus neu yn rhy ddioglyd i ddysgu eu plwyfogion, cyfreithwr prysur yn unig oedd ar ddihun.

Deallodd ef, fel Griffith Jones, Llanddowror, ddwy ganrif yn ddiweddarach, fod yn rhaid dysgu'r bobl i ddarllen, ac argraffu llyfrau at yr amcan hyn cyn y deffroa

Cymru o'r trwmgwsg meddyliol a chrefyddol yr oedd ynddo.


Yr oedd yn ddyn dysgedig a hoff o ddysgeidiaeth. Dengys ei yrfa yn Rhydychen hyn, ac y mae ei lyfrau a'r hanes a gawn am ei lyfrgell yn cadarnhau hynny.


Ein syniad am dano mewn gair yw, mai Cymro byrbwyll, gwladgarol oedd, hoff o'i deulu a'i gartref, heb ronyn o farddoniaeth yn ei natur, ond yn gwneyd y gwaith cyntaf a ddaethai i'w law. A hwyrach i'w ddylanwad ar Gymru fod yn llawer mwy llesol a pharhaus na dylanwad ugeiniau o Gymry sydd yn fwy adnabyddus heddyw nag yw efe. Wrth derfynu rhaid diolch i'r Iarles Macclesfield a Syr John Williams am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i roddi benthyg y llyfr, ac i liaws eraill am lawer o gymhorth a dderbyniwyd wrth ddwyn y llyfr trwy'r wasg.

J. H. DAVIES.

CWRTMAWR, LLANGEITHO,
Ebrill 15, 1902.

**Cysylltiadau Teuluoedd Syr John Prys, Thomas Cromwell, Earl Essex,
at Oliver Cromwell.**





Yny lhyvyr hwinn y traethir.

Gwyddor kymraeg.

Kalandr.

Y gredo, ney bynkeu yr
ffyd gatholig.

Y pader, ney wedi yr acglwyd.
Y deng air deddf.

Saith kaintwed yr eggltwys.

Y. kampey ar veradwy
ar Gwydieu gochlad-
wy ae keingeu.

M, D, XL VI.

¶ Kymro yn danbon Annerch at y
darlheadwyr.

Y awr nad oes dim hoffach gan ras
yn brenhin urdassol ni. No gwoelet
bot geirieu duw ae ebengil yn ker-
det yn gyffredinol ymysk y bobyl ef,
y peth y dengys y bot ef yn dywyl-
loc mor ddybawol ac y mae kadarn.

A phan roes eiswys gymmaint o donieu pres-
lennol y genedyl kymry. Nv bys lhelsgach y genna
dhau ydyn donyeu yspydawol.

Am hynny gweðys yw rhoi yngymraec beth o
yrcrythur lan, o herwys bod lhawer o gymry a
bedair darlhein kymraeg, heb bedru darlhein
bn gair laetnec na lhadin, ag yn enwedic y pync-
keu y sy anghenrheidiol y bob rhyw griffion y
gwybot dan betrigyl y enaid, sef yw hynny: pync-
keu yr ffydd gatholic, ac weddi a dysgoed duw y-
ni, a elwir y pader, ar deng air deddf, ac gwydyeu
gochladwy ar kampeu ar beradwy.

Ac er bod y rhain gyda lhawer o bethau da e-
raill yn yskribennedic mewon bagad o hen lyfreu
kymraeg, etto nvd ydy yr lhyfreu hynny yn gyffre-
dinol ymysk y bobyl. Ac yr awr y Rhoes duw y
pwynt yn mysk ni er amylhau gwybodaeth y eireu
bedigedic ef, iadw yni, bal y gwnaeth holh griffi
onogaeth heb law, gymryt rhann o daeoni hwn-
nw gyda yn hwy, bal na bai diffwyth rhod kyst
al a hon yni mwy noc y eraill, ac er ym dymyno
gwybod o bob un om kiwdaiddwyr i yr kymry la-
etneg ney ladin, lhe traethir o pethau hyn yn ber-
ffeithach, etto am na elhir hynny hyd pan welo
duw yn da a wahanoed ieythod y byd er yn kospe
digaeth ni

digaeth ni, pechod mawr oes ado yr sawl mil o enaiden y byned ar gysyngolh rac eisieu gwybodaeth y lys gatholic, ac y lys heb wybod iaith yny byd onyd kymraeg.

Kanys heb ffys ny elhir rhegi³ bod duto, ac periglo rpon y sy yny mylck ofwaethhiroes, y nailh ae nys medran, ae nys mynnan dangos yw plwybogyon y petheu y maen yn rhwymedic y lhailh yw dangos, ac lhalh eu gwybod, duto ae dycko yr iawn ac y adnabod y perigleu, pa wed y gorffo arnyn at teb am yz eneidu elo ar gysyngolh drwy y heisieu hwy, Ac er bod y gofal mwy, yn perthyn yr perigloion, etto ny bys neb dibwl, ac y rhoes duto so nyeu ney gyfarwydyd ydau, ny wnelo y peth y alho er hysbyllu ydy gydgystio⁵ y pynkeu y sy mor anhepko⁷ ar rhain. Ac am hynny gyt a gwelet bot rhan baw⁷ om kenedyl gymry mewon tywylhuch afriuaid o eisieu gwybodaeth duto ae orchymineu ac o hertwys hynny y dygwydo mewon dyfynder pechodeu a gwydyeu yn rhagorach no chenedloes erailh, ac am synyid y bod a donyeu da o synwyl a dealh gwedy y duto y rhoi ydynt, bal y gobethwn y bai haw⁸ gentyn welhau eu dyscarberon onyd discu yz iawn foys ydynt, mi a bedyliais er kariad byngwlad roi ydynt, y pynkeu hyn ynghymraeg er dagos⁶ blas ydynt o helysper etwylhus duto ac er kadw eu henaidieu, y rhai ny alho enilh⁷ kyftrwy dyd rhagorach drwy ieithos erailh, y peth y bymynwn ydynt y geiliaw yn dyfal, weithian dangoswch bynghytwladwyl o hynn alhan nad o drwecania⁸ onyd o eisieu gwybodaeth y byoch beips kyn hynn, na edwch y minney gymryd hynn o draba-el yn

